

# GWEITHIO’N DDIOGEL MEWN DOSBARTHIAU

---

2011

Mesurau Diogelwch ac Arweiniad  
ar gyfer Technegwyr Cwmni CYNNAL



## GWEITHIO’N DDIOGEL MEWN DOSBARTHIAU

### LLE MAE DISGYBLION YN BRESENNOL

Mae gwaith CYNNAL yn aml yn golygu bod rhaid i ni weithio mewn dosbarthiadau, gyda disgyblion yn breseennol. Gan amlaf, nid yw hyn yn broblem wrth atgyweirio cyfrifiaduron/offer (ar yr amod na agorir câs yr offer yn yr ysgol). Fodd bynnag, mae cynnal a chadw taflunwyr yn fater gwahanol. Mae’r rhestr o risgiau posibl yn cynnwys y canlynol:

1. Gweithio ar uchder ar ystol (risg i’r technegydd ac eraill sydd yn y man gweithio).
2. Gollwng pethau o uchder (mae’r risg yr un fath â’r uchod).
3. Plant yn rhedeg i mewn i ystolion sydd wedi’u gosod yng nghanol y dosbarth.
4. Perygl o daro plentyn wrth gario ystolion bach.
5. Perygl o ddisgyblion yn gafael a chwarae gydag offer sydd ei angen i wneud y gwaith.

I ddileu neu leihau’r risgiau hyn, dilynwch y canllawiau isod:

- Ceisiwch drwsio taflunwyr mewn dosbarthiadau gwag pob tro, - ceisiwch ohirio’r gwaith tan ‘amser chwarae’ os oes modd.
- Gofynnwch i’r athro/awes dosbarth a oes modd symud y plant o’r ardal waith tra byddwch wrthi’n gweithio. Os nad yw’n bosib eu symud o’r dosbarth, gofynnwch i’r athro/awes eu symud i ben arall y dosbarth, yn ddigon pell o’r man gweithio.
- Peidiwch, **o dan unrhyw amgylchiadau**, â gweithio os oes plentyn yn agos i’w man gwaith. Eglurwch i’r athro/awes dosbarth pam na allwch wneud y gwaith, a cheisiwch aildrefnu’r gwaith. (Nodwch ar eich taflen waith nad oedd modd sicrhau ei bod yn ddiogel i chi fynd at y taflunydd, er mwyn osgoi unrhyw gwynion.)
- Os yw’n bosibl (er nad yn hanfodol) gweithiwch mewn parau, - y naill i wneud y gwaith trwsio a’r llall i basio’r offer, dal yr ystol ac estyn y taflunydd i lawr. Gall yr ail berson hefyd gadw llygad rhag i blant grwydro i mewn i’r man gweithio.
- Mae taflunwyr yn cael eu gosod ar wahanol uchder, yn dibynnu ar yr ystafelloedd dosbarth. Ni ddylai technegwyr sydd heb gael hyfforddiant ‘gweithio ar uchder’ fentro gwneud gwaith sydd yn mynd â nhw i fyny at uchder a allai achosi anaf iddyn nhw neu eraill petaent yn disgyn. Mae’n anodd gosod cyfyngiad ar uchder gan fod pawb yn wahanol. Gofalwch eich bod chi’n gweithio ar uchder sy’n gyfforddus i chi.
- Defnyddiwch eich synnwyr cyffredin ar bob achlysur; peidiwch â bod ofn gwrthod cyflawni’r gwaith os ydych chi’n teimlo’n anghyfforddus neu os ydych chi’n pryderu am ddiogelwch. Mewn achosion fel hyn, dylid logio galwad i’r Tîm Ceblo A/V, sydd wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ac sydd â’r cyfarpar cywir i wneud y gwaith yn ddiogel.
- Ni ddylai technegwyr heb gymhwyster PASMA ddefnyddio sgaffaldiau/platfformau mynediad o dan unrhyw amgylchiadau, oni bai eu bod nhw yng nghwmni gweithiwr sydd â thystysgrif PASMA.
- Ceisiwch osgoi defnyddio ystolion yr ysgol gan nad ydynt, mwy na thebyg, yn cael eu profi ar gyfer dibenion diogelwch.
- Os ydych chi’n defnyddio ystolion bach “CYNNAL,” gwnewch yn siŵr bod y label “*laddertag*” yn ddilys. Os yw’r dystysgrif yn hen, peidiwch â’i defnyddio, a rhowch wybod i Rhys Jones.